# Cwm Taf Morgannwg

# Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol

# Datganiad Rhanbarthol 2022-2023

*Mai 2022*

## Cynnwys


Cyflwyniad ………………………………………………………………………………………. 3

Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau 2021-22 ………………………………………………... 4-8

Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23 ………………………………………………………… 9-10

Atodiad Un – Aelodaeth GCCTRh …......…………………………………………………….. 11

Atodiad Dau – Dyraniadau Cyllid GCT Rhanbarthol ......…………………………………….. 12

Cynllun Gwaith CTM 2022-23 ……………..…………………………………………………… 13

## Cyflwyniad:

Mae Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol (GCCTRh) Cwm Taf Morgannwg (CTM) yn fecanwaith allweddol ar gyfer gwella darpariaeth ranbarthol y Grant Cymorth Tai (GCT). Mae rhanbarth CTM yn cwmpasu tri awdurdod lleol (Merthyr, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr) sy’n gweithio ar y cyd â’u partneriaid i ddarparu fforwm cydweithredol.

Cydnabyddir bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn darparu’r mecanwaith i ddatblygu ymhellach y cydweithrediad rhwng y meysydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Mae’r GCCTRh yn bwriadu meithrin perthynas waith agos â’r BPRh yn ogystal â byrddau penodol eraill, gan sicrhau bod gwasanaethau’n comisiynu, yn dylunio neu’n ffocysu eu hymdrechion ar y cyd. Drwy hynny, caiff dibenion yr agendau ar gyfer Tai â Chymorth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu trin yn y modd mwyaf cydnaws. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen GCT ac mae sicrhau bod y partneriaid cywir yn dod yn aelodau o’r grŵp hwn yn flaenoriaeth i’r GCCTRh.

Mae’r GCT yn rhaglen ymyrraeth gynnar sy’n ariannu ystod eang o wasanaethau cymorth yn y maes tai a digartrefedd ar gyfer pobl fregus. Mae’n cefnogi gweithgareddau sy’n atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu’n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a’i gadw. Mae natur ataliol y rhaglen yn cefnogi amcanion polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy’n helpu pobl i fyw’n annibynnol yn y gymuned. Mae gwasanaethau’r Grant Cymorth Tai yn helpu i atal pobl rhag mynd yn ddigartref, a rhag cael eu hallgáu’n gymdeithasol, eu hynysu neu’u sefydliadu. Mae hefyd yn helpu i leihau trosedd ac anhrefn.

Mae’r Canllawiau Grant Cynnal Tai (GCT) yn pennu’r Blaenoriaethau Strategol sy’n ymwneud â Chyflenwi, Asesu Anghenion, Ymgynghori, Darparu Tystiolaeth a Nodi Bylchau yn y Gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae gan Dimau Awdurdodau Lleol fframweithiau cynllunio a chomisiynu lleol a rhanbarthol sydd wedi’u hen sefydlu, ac maent:

- yn creu darlun clir o’r cyflenwad gwasanaethau ac yn nodi’r cymorth sydd ei angen mewn perthynas â thai ar draws yr ardaloedd a’r rhanbarth;
- yn cynllunio gwasanaethau fel bod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu llenwi;
- yn datblygu ac yn cynnal gwasanaethau o safon sy’n gynaliadwy, yn strategol berthnasol ac yn cynnig gwerth am arian;
- yn sicrhau bod gwasanaethau’n canolbwyntio ar y dinesydd ac yn rhoi anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn gyntaf trwy gynnal ymgynghoriad priodol a darparu cyfleoedd iddynt fod yn rhan o’r prosesau sy’n ymwneud â chynllunio, comisiynu ac adolygu’r gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai.

**Dyma’r hyn a ddywed Canllawiau’r GCT ynghylch Gweithio Rhanbarthol:**

Mae’r Grwpiau Cydweithredol yn perthyn i’r Awdurdodau Lleol a’u creodd ac iddynt hwy fel cydweithfa y maent yn atebol. Dylai gwaith rhanbarthol gynnig fforwm i Awdurdodau Lleol gyflawni'r pethau hynny a gaiff eu gwneud orau yn rhanbarthol. Gellir categoreiddio’r rhain fel a ganlyn:

- (Cat) 1: Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes màs critigol ar eu cyfer yn lleol;
- (Cat) 2: Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir cyfiawnhau hynny ar sail arbedion maint;
- (Cat) 3: Sicrhau gwelliannau o ran cyflawni drwy gydweithio;
- (Cat) 4: Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

*Canllawiau GCT Ebrill 21*

## Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau 2021-22

| Eitem: | Amcan: | Cynnydd 2021/22: |
|---|---|---|
| **Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes màs critigol ar eu cyfer yn lleol.** | Datblygu gwasanaethau arbenigol wrth weithio ar y cyd â phartneriaid aml-asiantaeth, gan gynnwys rhanddeiliaid, gweithwyr rheng flaen a llais y defnyddiwr gwasanaeth. E.e. gweithdy datblygiadol sy'n ystyried gofynion cleientiaid ag anghenion cymhleth a allai ddod yn ddigartref. | Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu'r Tîm Allgymorth Iechyd Arbenigol ar draws y rhanbarth, gan weithio mewn llety dros dro gyda'n defnyddwyr gwasanaeth mwyaf cymhleth sy'n profi anawsterau iechyd meddwl a/neu ddibyniaeth ar sylweddau ar y cyd â digartrefedd. |
| | Casglu a dadansoddi data: cynhyrchu data arolygon ac ymchwiliadau (fel yr Asesiad o Anghenion Iechyd, Arolygon Rhanddeiliaid a Defnyddwyr Gwasanaeth, a Data Asesu GCT ar Anghenion Tai. Bydd hyn wedyn yn amlygu bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir ac yn tanategu'r datblygiadau i greu gwasanaethau priodol. E.e. mae'r asesiad o anghenion tai yn amlygu bwlch yn y ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r gymuned LHDTC+. | Comisiynwyd Llamau gennym i gynnal ymchwil i anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth o'r gymuned LHDTC+. Bydd gwybodaeth a data'r adroddiad yn ein cynorthwyo i gomisiynu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion penodol y grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd, lluniwyd Adroddiad ar Arolwg o Ddefnyddwyr Gwasanaeth a Rhanddeiliaid ac arweiniodd hynny at ddatblygu rhaglen hyfforddi ranbarthol ar gyfer staff rheng flaen. |
| | Coladu cofrestr ranbarthol o wasanaethau neu brosiectau arfaethedig sy'n gysylltiedig â thai. Manteisio ar gronfeydd *ad hoc* o arian sydd ar gael trwy fentrau ariannu untro, neu drwy "lithriant" o'r prosiectau presennol. | Mae prosiectau wedi cael eu hystyried ar gyfer perthnasedd strategol ac ymarferoldeb rhanbarthol gan Arweinwyr GCT a chan y GCCTRh.<br>Mae'r gofrestr o brosiectau posibl wedi galluogi inni gomisiynu gwasanaethau sydd eu hangen yn gyflym wrth i gyfleoedd ariannu ddod i'r fei.<br>Gweithredwyd 4 prosiect. |
| **Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir cyfiawnhau hynny ar sail arbedion maint.** | Aelodau'r GCCTRh i roi cyngor a chefnogaeth i'r Arweinwyr GCT mewn perthynas â datblygu prosiectau rhanbarthol y gellir eu cyfiawnhau gan arbedion maint. Gwneir hynny gan gydnabod mai'r Arweinwyr GCT a Digartrefedd Rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynllunio, | Yn ystod Cyfarfodydd GCCTRh, trafodir cyfleoedd i gomisiynu prosiectau ar draws y rhanbarth.<br>Mae cynigion ar gyfer prosiectau rhanbarthol newydd a phrosiectau peilot wedi'u hystyried a'u cymeradwyo gan y GCCTRh.<br>Mewn perthynas â phob prosiect arfaethedig, mae |

| | | |
|---|---|---|
| | datblygu a rheoli'r prosiectau hyn. | Arweinwyr GCT yn cael cyngor ac arweiniad gan y grŵp. Mae rhanddeiliaid ac aelodau'r GCCTRh yn hysbysu Arweinwyr GCT o fylchau mewn gwasanaethau a'r potensial i ddatblygu prosiectau partneriaeth. Derbyniwyd cyngor ac arweiniad o fewn partneriaeth strategol a gweithredol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys aelodau o'r maes Iechyd, Camddefnyddio Sylweddau a Thai. |
| | Bydd y GCCTRh yn ystyried y potensial ar gyfer ymestyn y prosiectau rhanbarthol presennol a'u heffeithiolrwydd. E.e. mae cyllid Cam 2 a ryddhawyd gan LlC yn ystod COVID-19 wedi'i gytuno ar gyfer prosiect rhanbarthol yn CTM sy'n rhoi cymorth arbenigol i'r digartref trwy gynnig darpariaeth iddynt ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. | Mae CTM yn gweithio mewn partneriaeth â'r BCA i gael mynediad at gyllid LlC ar gyfer pobl ag anghenion sy'n cyd-ddeillio o'u hiechyd meddwl a'u camddefnydd o sylweddau, er mwyn ehangu cyrhaeddiad ein Tîm Iechyd a Thai Arbenigol (a ariannwyd yn wreiddiol trwy Gam 1). Dyfarnwyd cyllid Cam 2 a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID-19, i ddatblygu prosiect rhanbarthol yn CTM sy'n rhoi cymorth arbenigol i'r digartref trwy gynnig darpariaeth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.<br>Mae siaradwyr gwadd yn diweddaru'r grŵp a chaiff data ei rannu a'i ystyried mewn perthynas ag effeithiolrwydd y prosiect. Nodwyd hyn ar gofnodion cyfarfodydd y GCCTRh. |
| | Dadansoddi ac ymateb i ddata arolwg ac asesiad o anghenion rhanbarthol sy'n amlygu anghenion neu fylchau cyffredin yn y ddarpariaeth. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi'r potensial i ystyried prosiectau a allai lenwi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd. E.e. manteisio ar gyllid newydd neu ailbennu cyllid i ddarparu darpariaeth a chymorth arbenigol, megis tŷ gwlyb, | Mae data arolygon ac asesiad o anghenion yn dangos anghenion neu fylchau cyffredin yn y ddarpariaeth. Comisiynwyd dau brosiect ymchwil/cwmpasu i lywio'r cynllunio strategol ar gyfer 2022/2023.<br><br>O ganlyniad i adborth gan randdeiliaid, comisiynodd CTM raglen o hyfforddiant i staff y rhanbarth i ddelio â: Dyletswyddau Digartrefedd |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaethau arbenigol sy'n gysylltiedig ag anabledd, neu brosiectau posibl yn y maes rhywedd. | Statudol, Y Sector Rhentu Preifat a Chyflwyniad i Ddigartrefedd, Cymorth Cyntaf Hunanladdiad ac I-ACT (Iechyd Meddwl a Llesiant Cadarnhaol). |
| **Sicrhau gwelliannau o ran cyflawni drwy gydweithio.** | Bydd y GCCTRh yn sicrhau bod gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth yn parhau ar lefel ranbarthol er mwyn cyflwyno gwelliannau i wasanaethau. Byddir yn gwneud hynny trwy weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y BPRh, BGC, BCA, VAWDASV a byrddau eraill o fewn y "dirwedd lywodraethu" ranbarthol. Rhannu data a chydweithio i sicrhau aliniad strategol. | Cyflwynir pob cam o'r holl brosiectau rhanbarthol gerbron grwpiau cynllunio'r ALl. Mae Cynrychiolwyr Tai y BPRh yn aelodau o'r GCCTRh, felly hefyd Cadeirydd y GCCTRh. Rydyn ni'n wybodus iawn am waith y BPRh a chyfleoedd posibl i gydweithio. Rydyn ni'n gweithio'n agos iawn gyda'r BCA a Bwrdd Llywio VAWDASV ac rydyn ni wedi comisiynu gwasanaethau ar y cyd gyda'r ddau ohonynt. |
| | Bydd Timau'r GCT yn parhau i gydweithio ar raddfa ehangach â rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid rheng flaen i ystyried y gwelliannau y gellir eu gwneud i'r agwedd ranbarthol mewn perthynas â'r modd y cyflwynir y Rhaglen GCT yn lleol ac yn rhanbarthol. | Mae ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid yn hanfodol i ddatblygiad parhaus y gwasanaethau GCT ar draws y rhanbarth. Ymgynghorwyd yn eang â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu blaenoriaethau a nodi bylchau yn y gwasanaeth. Arweiniodd ymgynghoriad ar Iechyd a Strategaeth CC at IC yn gwneud cais i change4ever am gymorth i newid systemau. |
| | Manteisio ar gyfleoedd partneriaeth sy'n gwella effeithiolrwydd y ddarpariaeth cymorth tai (fel y gall grwpiau tai a phartneriaid osgoi'r modd y dyblygir eu hymdrechion) h.y. nodi blaenoriaethau sy'n ymwneud â thai ar y cyd a gweithredu ar draws ffrydiau gwaith eraill, a chreu grwpiau gorchwyl a gorffen i leihau'r modd y dyblygir eu hymdrechion. | Fe wnaethon ni gyd-gomisiynu darn o ymchwil mewn partneriaeth â Bwrdd Llywio VAWDASV a llwyddodd hynny i fodloni anghenion y ddau grŵp trwy sicrhau na chaiff gwaith mo'i ddyblygu a'n bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn awr ac i'r dyfodol. |
| **Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill.** | Ffurfioli cysylltiadau a llinellau cyfathrebu sy'n ymwneud â gweithio rhanbarthol ar gyfer GCT, megis parhad cyfarfodydd cell, e.e. gwneud gwell | Mae mewnblannu cyfarfodydd cell (neu gyfwerth) wedi gwella cyfathrebiadau a chysylltiadau â'r heddlu, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau statudol eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | cysylltiadau gyda'r heddlu a'r gwasanaeth prawf/o bosibl cyfuno cyllid neu gomisiynu ar y cyd.<br>Cydleoli gwasanaethau, fel y gwnawn gydag iechyd.<br>Archwilio cyfleoedd gyda chyn-droseddwyr a'r modd yr ydym yn eu cefnogi. | Mae unrhyw wybodaeth berthnasol o'r cyfarfodydd hyn yn cael ei bwydo'n ôl i'r GCCTRh trwy'r Arweinwyr GCT.<br>Mae cronni cyllid a chomisiynu ar y cyd hefyd wedi arwain at greu Tîm Allgymorth Iechyd Arbenigol. |
| | Bydd sicrhau bod aelodaeth aml-asiantaeth y GCCTRh yn addas i'r diben ac yn cynnwys swyddogion perthnasol o feysydd gwasanaeth cyhoeddus eraill, yn flaenoriaeth i'r GCCTRh. | Mae aelodaeth y grŵp yn berthnasol gyda nifer dda yn bresennol o'r tair ardal ALl. Mae'r aelodaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd ac mae'n cynnwys yr holl aelodau a argymhellir gan LlC, yn unol â'r canllawiau tai. |
| | Gwella perthnasoedd â phartneriaid a gwella'r pontydd sy'n cysylltu'r gwasanaeth tai â'i bartneriaid. Mae'r Gweinidog Tai (Mawrth 21) yn awgrymu y dylai partneriaethau ystyried y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd yn eu hardaloedd. Bydd gofyn iddynt adolygu eu trefniadau a'u haliniadau eu hunain a gweithredu'r drefn sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr mewn amgylchiadau lleol. | Yn CTM, mae perthnasoedd rhagorol yn bodoli rhwng y gwasanaeth tai a'i bartneriaid. Mae'r berthynas rhwng y meysydd tai ac iechyd yn enwedig, wedi dod yn llawer cryfach dros y 12 mis diwethaf wrth greu Tîm Iechyd a Thai Arbenigol. Er nad oes gofyn bellach i aelodau etholedig fod yn rhan o'r GCCTRhau, o fewn rhanbarth CTM mae ein haelodau etholedig yn gwneud cyfraniad hanfodol i dwf y gweithio rhanbarthol ac maent wedi chwarae rhan fawr yn y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf. |
| | Argymhelliad y Gweinidog Tai: dylai pob partneriaeth ddarparu gwybodaeth sylfaenol ar-lein yn amlinellu eu cylch gorchwyl, eu gweledigaeth, eu haelodaeth, eu cynnydd a'r modd y gall dinasyddion neu gymunedau gymryd rhan. | Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth ar-lein drwy: Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>Mae hyn yn cynnwys: cylch gorchwyl y grŵp, arolygon blynyddol o'r defnyddwyr gwasanaeth a'r rhanddeiliaid, cofnodion cyfarfodydd a negeseuon allweddol ynghyd â chyhoeddiadau'r rhanddeiliaid. |
| **Ystyriaethau eraill.** | Ailgyflunio, adolygu ac asesu darpariaeth y gwasanaeth presennol - ystyried a thrafod i sicrhau cynaliadwyedd unrhyw wasanaethau newydd | Darperir diweddariadau ar brosiectau rhanbarthol yn ystod Cyfarfodydd GCCTRh. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch y |

| | | |
|---|---|---|
| | a ddatblygir yn ystod y cyfnod hwn ar lefel ranbarthol. | posibilrwydd o ddatblygu gwasanaethau newydd. |
| | Adroddiadau i Lywodraeth Cymru – GCCTRh i gyflwyno Datganiad Rhanbarthol Blynyddol erbyn diwedd mis Ebrill bob blwyddyn yn nodi'r cydweithio sydd wedi'i gyflawni a'r cyfleoedd a'r heriau allweddol a fydd yn flaenoriaethau i'r grŵp yn ystod y flwyddyn i ddyfod. | Mae aelodau'r GCCTRh wedi gweld y Datganiad Rhanbarthol hwn ac wedi'i gymeradwyo. |
| | Cyflwyno diweddariad o'r sefyllfa bob chwe mis yn nodi'r ffordd y mae'r GCCTRh yn dod yn ei flaen o ran cyflawni blaenoriaethau ei ranbarth. | Mae'r rhain wedi'u cyflwyno yn ôl y gofyn. |
| | Presenoldeb yn y Rhwydwaith Cymorth Tai – y CDRh i fynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Cymorth Tai er mwyn rhannu arferion da a chael dealltwriaeth o faterion sy'n dod i'r amlwg ac unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer awdurdodau lleol a allai effeithio ar weithio rhanbarthol. | Mae'r CDRh wedi mynychu holl gyfarfodydd y Rhwydwaith Cymorth Tai ac mae Rheolwr y Rhwydwaith Cymorth Tai wedi rhoi cyflwyniad gerbron GCCTRh CTM. |

## Blaenoriaethau GCCTRh Cwm Taf Morgannwg 2022 – 2023

**1: Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes màs critigol ar eu cyfer yn lleol**

- Datblygu gwasanaethau arbenigol wrth weithio ar y cyd â phartneriaid aml-asiantaeth, gan gynnwys rhanddeiliaid, gweithwyr rheng flaen a llais y defnyddiwr gwasanaeth.
- Trafod ac ystyried y ddau brosiect cwmpasu a gynhaliwyd yn ystod 2021/22 (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a LHDTC+) i lywio'r penderfyniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol.
- Parhau i fonitro a datblygu'r Tîm Allgymorth Iechyd Arbenigol, i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes gyda'r posibilrwydd o ehangu i gefnogi niferoedd ychwanegol o ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Coladu cofrestr ranbarthol o wasanaethau neu brosiectau arfaethedig sy'n gysylltiedig â thai. Manteisio ar gronfeydd *ad hoc* o arian sydd ar gael trwy fentrau ariannu untro, neu drwy "lithriant" o brosiectau presennol.

**2: Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir cyfiawnhau hynny ar sail arbedion maint**

- Aelodau'r GCCTRh i roi cyngor a chefnogaeth i'r Arweinwyr GCT mewn perthynas â datblygu prosiectau rhanbarthol y gellir eu cyfiawnhau gan arbedion maint. Byddir yn gwneud hynny gan gydnabod mai'r Arweinwyr GCT a Digartrefedd Rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynllunio, datblygu a rheoli'r prosiectau hyn.
- Bydd y GCCTRh yn ystyried y potensial ar gyfer ymestyn y prosiectau rhanbarthol presennol a'u heffeithiolrwydd. E.e. y bwriad i ehangu cymorth arbenigol i'r digartref trwy ddarpariaeth arbenigol ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
- Dadansoddi ac ymateb i ddata arolwg ac asesiad o anghenion rhanbarthol sy'n amlygu anghenion neu fylchau cyffredin yn y ddarpariaeth. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi'r potensial i ystyried prosiectau a allai lenwi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.

**3: Sicrhau gwelliannau o ran cyflawni drwy gydweithio**

- Bydd y GCCTRh yn sicrhau bod gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth yn parhau ar lefel ranbarthol er mwyn cyflwyno gwelliannau i wasanaethau. Byddir yn gwneud hynny trwy weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y BPRh, BGC, BCA, VAWDASV a byrddau eraill o fewn y "dirwedd lywodraethu" ranbarthol.
- Bydd Timau'r GCT yn parhau i gydweithio'n ehangach â rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid rheng flaen i ystyried y gwelliannau y gellir eu gwneud i agweddau o gyflwyniad y Rhaglen GCT yn lleol ac yn rhanbarthol.
- Manteisio ar gyfleoedd partneriaeth sy'n gwella effeithiolrwydd y ddarpariaeth cymorth tai (fel y gall grwpiau tai a phartneriaid osgoi'r modd y dyblygir eu hymdrechion) h.y. nodi blaenoriaethau sy'n ymwneud â thai ar y cyd a gweithredu ar draws ffrydiau gwaith eraill,

a chreu grwpiau gorchwyl a gorffen i leihau'r modd y dyblygir eu hymdrechion. Rhoir y pwyslais ar ddarparu ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth iawn.

**4: Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill**

- Ffurfioli cysylltiadau a llinellau cyfathrebu sy'n ymwneud â gweithio rhanbarthol, ar gyfer GCT, e.e.
  - gwella cysylltiadau â'r heddlu a'r gwasanaeth prawf/o bosibl cyfuno cyllid neu gomisiynu ar y cyd;
  - cydleoli gwasanaethau, fel y gwnawn gydag iechyd a chamddefnyddio sylweddau;
  - archwilio cyfleoedd gyda chyn-droseddwyr a'r modd yr ydym yn eu cefnogi.
- Bydd sicrhau bod aelodaeth aml-asiantaeth y GCCTRh yn addas i'r diben ac yn cynnwys swyddogion perthnasol o feysydd gwasanaeth cyhoeddus eraill, yn flaenoriaeth i'r GCCTRh.
- Gwella perthnasoedd â phartneriaid a gwella'r pontydd sy'n cysylltu'r gwasanaeth tai â'i bartneriaid. Mae'r Gweinidog Tai (Mawrth 21) yn awgrymu y dylai partneriaethau adolygu eu trefniadau a'u haliniadau eu hunain a gweithredu'r drefn sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr mewn amgylchiadau lleol.
- Bodloni argymhelliad y Gweinidog Tai: dylai pob partneriaeth ddarparu gwybodaeth sylfaenol ar-lein yn amlinellu eu cylch gorchwyl, eu gweledigaeth, eu haelodaeth, eu cynnydd a'r modd y gall dinasyddion neu gymunedau gymryd rhan.

**Ystyriaethau eraill:**

- **Ailgyflunio, adolygu ac asesu darpariaeth y gwasanaeth presennol** - ystyried a thrafod i sicrhau cynaliadwyedd unrhyw wasanaethau newydd a ddatblygir yn ystod y cyfnod hwn ar lefel ranbarthol.
- Bydd Map o Gyflenwad y Gwasanaethau Rhanbarthol yn cael ei goladu ynghyd â Chynllun Gwariant Rhanbarthol er mwyn i'r GCCTRh allu goruchwylio ar lefel ranbarthol.
- **Adroddiadau i Lywodraeth Cymru** – GCCTRh i gyflwyno datganiad rhanbarthol blynyddol erbyn diwedd Ebrill bob blwyddyn yn nodi'r cydweithio sydd wedi'i gyflawni a'r cyfleoedd a'r heriau allweddol a fydd yn flaenoriaethau i'r grŵp yn ystod y flwyddyn i ddyfod.
- Cyflwyno diweddariad o'r sefyllfa bob chwe mis yn nodi'r ffordd y mae'r GCCTRh yn dod yn ei flaen o ran cyflawni blaenoriaethau ei ranbarth.

Mae GCCTRh Cwm Taf Morgannwg wedi dangos ymrwymiad hirsefydlog i weithio a chydweithio ar sail ranbarthol. Mae'r GCCTRh wedi bod yn ganolog i ddatblygu lletyau â chymorth ynghyd â chynlluniau cymorth lle bo'r angen, ac mae wedi'u comisiynu ar sail ranbarthol. Mae wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol i gefnogi'r dasg o sefydlu Tîm Amlddisgyblaethol i gefnogi rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus ar draws y rhanbarth. At hynny, mae wedi cefnogi diwylliant o gydweithio o fewn ardal y tri Awdurdod Lleol, gan arwain at alinio polisïau a gweithdrefnau. Mae aelodau'r GCCTRh wedi ymrwymo i symud y gwaith hwn yn ei flaen ymhellach yn ystod y deuddeg mis nesaf, ac i gefnogi'r tri Awdurdod Lleol wrth iddynt ddatblygu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion ein cymunedau.


## Atodiad 2: **Rhestr Aelodau GCCTRh - Ebrill 2022**

| Aelodaeth GCCTRh | Sefydliad/Gwasanaeth | * | Cynrychiolwyr |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol – Arweinwyr Strategol a Chynrychiolwyr Enwebedig y GCT | Tai a Digartrefedd | M | Suzanne Lewis Abbott<br>Suzanne Stephens<br>Hannah Mills |
| | Tai a Digartrefedd | R | Cheryl Emery<br>Susan Preece<br>Rachel O Gronow |
| | Tai a Digartrefedd | B | Lynne Berry<br>Ryan  Jones |
| | Aelod Cabinet CBSM | M | Cyng Kevin O'Neill |
| | Aelod Cabinet CBSPyB | B | Cyng Dhanisha Patel |
| | Aelod Cabinet CBSRhCT | R | Cyng Rhys Lewis RhCT |
| | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd | R | Louise Davies |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol | M<br>M | Lisa Curtis Jones<br>Lowri Morgan (Dirprwy) |
| Partneriaid Rhanbarthol | Prawf | | Emma Richards<br>Kelly Bosley |
| | Cyfiawnder Ieuenctid | | I'w gadarnhau |
| | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | | Angharad Metcalf |
| | BCA Camddefnyddio Sylweddau | | Ceri Ford |
| | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol VAWDASV | | Deborah Evans |
| | Grant Plant a Chymunedau | M | Melinda Powell |
| | Bwrdd Iechyd Cyhoeddus CTM | | Claire Beynon |
| | Iechyd Meddwl | | I'w gadarnhau |
| Darparwr Cymorth y Trydydd Sector a Landlordiaid | Cynrychiolydd y Darparwyr Cymorth<br><br>Cynrychiolwyr y Landlordiaid Tai Cymdeithasol | | Lorraine Griffiths (POBL)<br><br>Julie McCarthy (MVH)<br>Sarah O'Keefe (CTWW) |
| | Y Sector Rhentu Preifat | | Tim Thomas |
| | Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol | | Kristen Cooper |
| Eraill | Llais y Defnyddwyr Gwasanaeth | | Claire Williams |
| | Cynrychiolwyr Tai'r BPRh | | Rachel Honey Jones<br>Emma Howells (Dirprwy)<br>Luke Takeuchi<br>Jennifer Elis (Dirprwy) |

## Atodiad 2: Dyraniadau Cyllid GCT Rhanbarthol

Dyrennir y Grant Cymorth Tai i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Awdurdodau Lleol Cwm Taf Morgannwg yn derbyn y dyfarniadau grant canlynol er mwyn darparu Cymorth Tai ar lefel leol a chyfrannu tuag at flaenoriaethau rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.

| Awdurdod: | Y GCT a ddyfarnwyd i'r ALl: |
|---|---|
| CBS Pen-y-bont ar Ogwr | £7,833,509.33 |
| CBS Rhondda Cynon Taf | £12,236,632.90 |
| CBS Merthyr Tudful | £2,873,282.13 |
| Cyfanswm y Dyraniad: | £22,943,424.40 |



## Cynllun Gwaith Cwm Taf Morgannwg 2022 - 2023

Yn ystod 22/23, bydd y GCCTRh yn parhau i weithio ar y blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Gwaith 21/22 (tudalennau 4-6) a'r blaenoriaethau a gytunwyd ar gyfer 22/23 (tudalennau 9-10).

- Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes màs critigol ar eu cyfer yn lleol
- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir cyfiawnhau hynny ar sail arbedion maint
- Sicrhau gwelliannau o ran cyflawni drwy gydweithio
- Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill
    - Bydd y GCCTRh yn parhau i gefnogi datblygiad a chynnydd y Tîm Iechyd a Thai Rhanbarthol Arbenigol.
    - Mae'r GCCTRh yn archwilio canfyddiadau'r ymchwil a wnaed yn 21/22 a oedd yn edrych ar anghenion cymorth tai pobl LHDTC+ ac yn ystyried penderfyniadau comisiynu ar gyfer 23/34 a thu hwnt.
    - Bydd y GCCTRh yn archwilio canfyddiadau'r prosiect ymchwil ar Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a gomisiynwyd yn 21/22 (ac i mewn i 22/23) ac yn ystyried opsiynau comisiynu rhanbarthol ar gyfer 23/24 a thu hwnt.

**Acronymau**

| | |
|---|---|
| **BCA** | Bwrdd Cynllunio Ardal |
| **CTM** | Cwm Taf Morgannwg |
| **GCT** | Grant Cymorth Tai |
| **ALl** | Awdurdod Lleol |
| **CCLl** | Cynllun Comisiynu Lleol |
| **BGC** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **PCRh** | Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol |
| **GCCTRh** | Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol |
| **BPRh** | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| **FfPRh** | Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol |
| **CSRh** | Cynllun Strategol Rhanbarthol |
| **CP** | Cefnogi Pobl |
| **VAWDASV** | Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |

Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol

Swyddog Rhanbarthol ar gyfer Datblygu a Chefnogi Pobl

E-bost: kristen.cooper@merthyr.gov.uk